**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG / WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON 22/01/2004**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2004-0005 Llongyfarch Cyngor Rhondda Cynon Taf an ei Welliannau / Congratulating Rhondda Cynon Taff Council for their improvement

**Codwyd gan / Raised By:** Rhodri Glyn Thomas

**Tanysgrifwyr / Subscribers:**
Elin Jones 06/02/2004
Jocelyn Davies 03/02/2004
Owen John Thomas 30/01/2004
Helen Mary Jones 28/01/2004
Janet Davies 27/01/2004
Janet Ryder 27/01/2004
Alun Ffred Jones 27/01/2004
Leanne Wood 27/01/2004
Dai Lloyd 27/01/2004

*Rydym ni, fel aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn dymuno llongyfarch Cyngor Rhondda Cynon Taf am fod ar y rhestr fer o bump, o'r cynghorau Prydeinig sydd wedi dangos y mwyaf o welliant.*

*We, as members of the National Assembly for Wales, wish to congratulate Rhondda Cynon Taff Council for being in the shortlist of five, of the most improved councils in the United Kingdom.*

## Gwelliannau / Amendments

**A01 Raised by:** Leighton Andrews, Janice Gregory, Christine Chapman, Lorraine Barrett and Val Lloyd 28 January 2004

**Tanysgrifwyr / Subscribers:** 0

*Dileu popeth ar ôl 'Cymru' ac ychwanegu*

*Yn llongyfarch Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cynnydd rheolaidd a pharhaus o ran y cyllid y mae wedi'i roi i Gyngor Rhondda Cynon Taf ers 1999; yn gresynu bod arweinyddiaeth wleidyddol wael o fewn Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi arwain at lefelau salwch 'annerbyniol o uchel' yn yr Is-adran Gwasanaeth Cymunedol sy'n 'cael effaith andwyol ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd,' yng ngeiriau Cyfarwyddwr Grwp Rhondda Cynon Taf ar gyfer y Gwasanaethau Cymunedol; ac yn nodi bod yr Archwilydd Dosbarth wedi datgan nad yw system graffu Cyngor Rhondda Cynon Taf yn wleidyddol gytbwys.*

*Delete all after 'Wales' and insert*

*Congratulate the Welsh Assembly Government on their regular and sustained increases in funding for Rhondda Cynon Taff Council since 1999; regret that poor political leadership within RCT Council has led to sickness levels in the Community Service Division now running at 'an unacceptably high level' which is 'having a detrimental effect on the quality of services that can be provided to the public', in the words of RCT's Group Director, Community Services; and note that the District Auditor has said that RCT's scrutiny system 'is not politically balanced'.*

**A02 Raised by:** Leighton Andrews, Christine Chapman 02/04/2004

**Tanysgrifwyr / Subscribers:** 0

Dileu popeth ar ôl 'Cymru' ac ychwanegu

'yn nodi y penderfynwyd ar y gystadleuaeth y cymerodd Rhondda Cynon Taf ran ynddi drwy broses o hunan-enwebu; yn cydnabod gwaith caled staff Cyngor Rhondda Cynon Taf; yn croesawu'r buddsoddiad cyhoeddus ychwanegol o £100 miliwn yn Rhondda Cynon Taf gan Lywodraeth Lafur y DU a Llywodraeth Lafur y Cynulliad; yn gwrthod rheolaeth wleidyddol gyfrinachgar ac anghymwys Plaid Cymru o Gyngor Rhondda Cynon Taf, ac yn edrych ymlaen at ddyfarniad pobl Rhondda Cynon Taf yn yr unig gystadleuaeth sy'n cyfrif ar Fehefin 10'

Delete all after ‘Wales’ and insert

'notes that the competition entered by Rhondda Cynon Taff Council was determined by a process of self-nomination; recognises the hard work of the staff of Rhondda Cynon Taff Council; welcomes the investment in Rhondda Cynon Taff of an additional £100 million of public investment since 1999 by Labour's UK and Welsh Assembly Governments; rejects the secretive, incompetent political management of RCT by Plaid Cymru, and looks forward to the verdict of the people of Rhondda Cynon Taff in the only contest that counts on June 10th'